



Darganfuwyd coed Celyn sy'n dyddio o'r 1830au yn y gerddi. Enwir chwe rhywogaeth mewn adroddiad gan Gymdeithas Gerddi Hanesyddol Cymru, ynghyd â 'Butcher's Broom' (*Ruscus Aculeatus*) a ddefnyddiwyd gynt gan gigyddion i lanhau eu byrddau torri, a Phiswydd Japanaidd (*Euonymus Japonicus*). Mae'r darganfyddiadau hyn yn awgrymu plannu yng nghanol oes Fictoria. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos olion gardd rhedyn ger y brif fynedfa.

## Darganfod tywodfaen

Darganfuwyd cerrig o Fforest y Ddena yn nhir a muriau adeiladau'r castell. Mae ymweliad gan Fforwm cerrig Cymru wedi rhoi tystiolaeth ddireaethol o waith ymchwil y Tad Seamus Cunnane. Er mai llechfaen o Gilgerran a ddefnyddiwyd yn bennaf ar y safle, mae cofnod o 1244 sy'n dangos i 12,000 o flociau o dywodfaen coch gael eu harchebu o chwarel St Briavel ger Abaty Tyn-dryn. Mae'n debyg iddynt gael eu defnyddio'n addurniadol.

Gan fod llawer o'r meini ar y safle wedi cael eu symud a'u hailddefnyddio dros y canrifoedd, mae'n anodd bod yn sicr ble yn union cawson nhw eu defnyddio yn wreiddiol. Daethpwyd o hyd i rai a ddefnyddiwyd i adeiladu tal-

cen dwyreiniol Tŷ Castle Green, a darganfuwyd rhai eraill yn y gerddi.

Byddai'r blociau wedi cael eu llwytho ar longau mawr ar lannau Hafren, ac wedyn allan i Aber Hafren, heibio i arfordir De Cymru a Sir Benfro, ac i mewn i borthladd Aberteifi yn syth at y Castell.

• Mae Fforwm Cerrig Cymru yn hybu ymwybyddiaeth amddefnydd o gerrig naturiol yng Nghymru. Daw'r aelodau o feysydd cadwraeth, treftadaeth, cynllunio, daeareg, pensaernïaeth a gwaith cerrig. Maent yn cynnal ymweliadau maes i astudio adeiladu ac yn trafod materion sy'n ymwneud â chadwraeth, caniatâd daearegol a phensaernïaeth. Maer Fforwm yn gysylltiedig ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru

**T**ir y Castell fu pen taith feicio Cadwgan yn ystod mis Mehefin, pan fu band jas yn perfformio yno—am y tro cyntaf ers 60 mlynedd o leiaf.

**D**echreuwyd Gŵyl Fawr Aberteifi o risiau Tŷ Castle Green. Gobeithiwn mai hyn fydd dechrau ailgreu'r cysylltiad rhwng y traddodiad eisteddfodol a Chastell Aberteifi a fydd yn datblygu yn y dyfodol.

**Y**n ystod mis Gorffennaf, bu ymweliad gan Dywysog Cymru a Duges Cernyw. Dangosodd y Tywysog ddiddordeb pendant yn y Castell, a dwedodd yr hoffai ddod yn ôl i'w weld ar ôl i'r prosiect gael ei gyflawni.

**G**osodwyd gatiu newydd yn y brif fynedfa yn Green Street. Byddant yn aros yno wrth i'r gwaith barhau. Bu rheid cael gât yn lle'r byrddau a godwyd ar frys er diogelwch bedair blyned yn ôl, a oedd wedi dirywio. Gosodir gatiu o gynllun addas yn y dyfodol. Gwnaethpwyd y gatiu gan Colin Davies, Hermon, Crymych, sydd yn arbenigwr mewn haearn gyr.

**P**arhau mae'r gwaith o dacluso'r gerddi. Erbyn hyn mae'n bosibl gweld grisiau o lechfaen ac ardal eistedd balmantog o gwmpas y pwll lili a llunwedd yr ardd lysiau gyda ei llwybrau.